LEFEL 3

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Adeiladu

MAI 2021

Cynnwys

Adran	**Rhif y dudalen**
Cyflwyniad	2
Diben	2
Strwythur y Cymhwyster	3
Nodau ac amcanion y pwnc	4
Cynnwys y pwnc	4
Maes Dysgu 1	5
Maes Dysgu 2	5
Maes Dysgu 3	6
Maes Dysgu 4	6
Trefniadau asesu	6
Deilliannau	9
Gofynion rhesymeg	9
Gofynion gweithredol	10
Atodiad A	11

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Adeiladu (Lefel 3). Mae'r rhain wedi cael eu datblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu ar gyfer Adeiladu (Lefel 3).

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes adeiladu a gwasanaethau adeiladu i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Adeiladu (Lefel 3).

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres i un ffurf yn unig am gyfnod o saith mlynedd o 1 Medi 2021. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2018 a mis Mehefin 2019, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds London Institute ac EAL i ddatblygu a chyflwyno'r cymwysterau newydd.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol* y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gorff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd yn cael blaenoriaeth.

Diben

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i ganiatáu i'r rheini sydd yn dysgu yn y gwaith ddatblygu a gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o grefft adeiladu ddewisol ac o sut mae'n cael ei pherfformio yng Nghymru.

Bydd y cymhwyster yn caniatáu i ddysgwyr gynllunio a pherfformio prosiectau yn y grefft adeiladu ddewisol, yn erbyn safonau galwedigaethol a gydnabyddir yn genedlaethol, cyn adolygu a gwerthuso ansawdd allbynnau'r prosiect. Bydd y cymhwyster yn datblygu gallu dysgwyr i gwblhau'r tasgau hyn wrth weithio ar brosiectau cyfoes neu gyda'r stoc adeiladu draddodiadol sylweddol yng Nghymru, yn ogystal ag wrth ddefnyddio technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o sut i gyflawni eu rolau fel rhan o dimau cynhyrchiol ac mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd dysgwyr yn gallu cwblhau'r asesiad o'r cymhwyster unwaith y bydd cyflogwr wedi datgan bod y dysgwr yn gymwys yn alwedigaethol.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i'r fanyleb Adeiladu (Lefel 3) gynnig ardystiad cymhwyster o faint dwy neu dair blynedd o ddysgu yn y gwaith i ddysgwyr. Bydd angen diffinio'r cymwysterau yn nhermau Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA), Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) a chredydau.

2. Bydd cymhwyster ar gyfer pob un o'r llwybrau crefft canlynol:

    2.1. leinio sych;
    2.2. gosod llechi a theils ar do;
    2.3. gweithrediadau sifil – gwaith daear; a
    2.4. codi fframiau pren;
    2.5. gosod brics;
    2.6. gwaith coed pensaernïol;
    2.7. gwaith coed ar safle;
    2.8. paentio ac addurno;
    2.9. plastro soled;
    2.10. teilio wal a llawr; a
    2.11. gweithrediadau peiriannau.

3. Bydd teitl pob cymhwyster ar QiW yn dilyn fformat:

    3.1. Adeiladu (Lefel 3) – *llwybr crefft*.

4. Rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau bod y fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddewis un o'r llwybrau ym mharagraff 3 neu 4.

5. Rhaid i deitl y cymhwyster gynnwys, fel ardystiad sy'n ymddangos ar dystysgrifau, y llwybr sydd wedi'i ddilyn (gweler paragraff 3 a 4).

Nodau ac amcanion y pwnc

6. Rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) alluogi dysgwyr i ddatblygu eu:

    6.1. gallu i gynllunio prosiectau gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio'r sgiliau priodol ar gyfer crefft adeiladu ddewisol ac mewn amgylchedd gwaith;

    6.2. gallu i adolygu a gwerthuso ansawdd eu gwaith gorffenedig yn effeithiol mewn crefft adeiladu ddewisol ac mewn amgylchedd gwaith;

    6.3. gwybodaeth a dealltwriaeth o'r offer, technegau, deunyddiau a thechnolegau a ddefnyddir mewn crefft adeiladu ddewisol ac o sut y maent yn newid, ac wedi newid, dros amser;

    6.4. sgiliau cyflogadwyedd a'u gallu i'w defnyddio mewn amgylchedd gwaith.

    6.5. dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;

    6.6. gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu ddewisol;

    6.7. perfformiad galwedigaethol mewn crefft adeiladu ddewisol mewn cyd-destun gwaith.

Cynnwys y pwnc

7. Rhaid i gynnwys manyleb Adeiladu (Lefel 3) adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

8. Rhaid i'r fanyleb Adeiladu (Lefel 3) gynnwys yr holl gynnwys fel yr amlinellir ym Meysydd Dysgu 1-4 ac Atodiad A.9.

9. Rhaid i'r fanyleb Adeiladu (Lefel 3) gwmpasu'r meysydd dysgu canlynol:

Maes Dysgu 1: Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Maes Dysgu 2: Perfformiad a Sgiliau

Maes Dysgu 3: Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru

Maes Dysgu 4: Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru

10. Dylai cynnwys pob maes dysgu fod yn berthnasol i ymarfer dysgwyr yn y llwybr crefft dewisol.

Maes Dysgu 1 – Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ym Maes Dysgu 1, rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r ystod lawn o wybodaeth a dealltwriaeth o elfennau gorfodol y safonau cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer y llwybr crefft dewisol gan gynnwys unrhyw ddewisiadau ac arbenigeddau gorfodol.[1]

11. Mae'r ystod o safonau y dylid tynnu gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt, sy'n gywir ym mis Ebrill 2020, wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Rhaid i'r fanyleb gynnwys y safonau gorfodol a dewisol fel yr amlinellir yn Atodiad A.

12. Rhaid i'r corff dyfarnu gynnwys yn y fanyleb ganllaw esboniadol o derminoleg allweddol a ddefnyddir yn yr adrannau hyn o'r safonau cenedlaethol a gydnabyddir yn eang ar gyfer pob maes crefft, gan gynnwys unrhyw arbenigedd crefft perthnasol. Rhaid i'r corff dyfarnu hefyd gynnwys yn y fanyleb ganllaw esboniadol o derminoleg allweddol a ddefnyddir ar draws gwahanol setiau o safonau cenedlaethol ar gyfer crefftau Adeiladu.

Maes Dysgu 2 – Perfformiad a Sgiliau

13. Ym Maes Dysgu 2, rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r ystod lawn o sgiliau perfformio o elfennau gorfodol y safonau cenedlaethol a gydnabyddir yn eang ar gyfer y maes crefft dewisol gan gynnwys unrhyw ddewisiadau ac arbenigeddau gorfodol.[2]

14. Mae'r ystod o safonau y dylid tynnu perfformiad a sgiliau ohonynt, sy'n gywir ym mis Ebrill 2020, wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Rhaid i'r fanyleb gynnwys y safonau gorfodol a dewisol fel yr amlinellir yn Atodiad A.

[1] Ar gyfer Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Peiriannau, rhaid i'r cymhwyster ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth gysylltiedig ar gyfer y categorïau o driniwr telesgopig, rholer eistedd arno, tryc dadlwytho tipio-blaen a naill ai beiriant turio 180° neu beiriant turio 360°.
[2] Ar gyfer Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Peiriannau, rhaid i'r cymhwyster ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau perfformiad perthnasol ar gyfer y categorïau o driniwr telesgopig, rholer eistedd arno, tryc dadlwytho tipio-blaen a naill ai beiriant turio 180° neu beiriant turio 360°.

15. Rhaid i'r corff dyfarnu gynnwys yn y fanyleb ganllaw esboniadol o derminoleg allweddol a ddefnyddir yn yr adrannau hyn o'r safonau cenedlaethol a gydnabyddir yn eang ar gyfer pob maes crefft, gan gynnwys unrhyw arbenigedd crefft perthnasol. Rhaid i'r corff dyfarnu hefyd gynnwys yn y fanyleb ganllaw esboniadol o derminoleg allweddol a ddefnyddir ar draws gwahanol setiau o safonau cenedlaethol ar gyfer crefftau Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu.

Maes Dysgu 3 – Deall Adeiladu yng Nghymru

16. Ym Maes Dysgu 3, rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) sicrhau bod dysgwyr yn datblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:
    16.1. cyrff crefft, sefydliadau a chofrestriadau;
    16.2. yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru;
    16.3. prosiectau yn y grefft ddewisol;
    16.4. cyd-ddibyniaethau rhwng y grefft ddewisol ac eraill;
    16.5. y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig sy'n newid;
    16.6. y grefft ddewisol a'r amgylchedd; a
    16.7. diogelwch yr amgylchedd adeiledig.

Maes Dysgu 4 – Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru

17. Ym Maes Dysgu 4, rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o:
    17.1. deunyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddir yn y grefft ddewisol a sut maent wedi newid dros amser;
    17.2. cynllunio ac adolygu gwaith; a
    17.3. gweithio gydag eraill.

Trefniadau asesu

18. Rhaid i'r manylebau Adeiladu (Lefel 3) ganiatáu i ddysgwyr gynnal trafodaeth broffesiynol yn unig ar ôl cael cadarnhad gan y ganolfan ei bod wedi derbyn ffurflen datganiad cymeradwyo boddhaol gan gyflogwr y dysgwr.

19. Asesir y cymhwyster Adeiladu (Lefel 3) trwy asesiad mewnol ac allanol fel yr amlinellir isod:

Asesiad 1a[3] Prawf
Sylwch: mae'n ofynnol i'r asesiad hwn fod ar sgrin ar gyfer pob llwybr crefft heblaw teilsio waliau a lloriau.
Diben
Rhaid i'r asesiad asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1, 3 a 4.
Gofynion
Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n allanol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol a'i gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu. Rhaid cynnal yr asesiad heb fynediad at ddeunydd cyfeirio.
Asesiad 1b Prawf
Sylwch: mae'n ofynnol i'r asesiad hwn fod ar sgrin ar gyfer pob llwybr crefft heblaw teilsio waliau a lloriau.
Diben
Rhaid i'r asesiad asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1, 3 a 4
Gofynion
Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n allanol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol a'i gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu. Rhaid cynnal yr asesiad heb fynediad at ddeunydd cyfeirio.
Rhaid i asesiad 1a ac 1b, gyda'i gilydd, gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

Asesiad 2 Prosiect ymarferol
Diben
Rhaid i'r asesiad asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1, 2 a 4.
Gofynion
Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag un neu fwy o dasgau ymarferol yn y gweithle a chynhyrchu deilliannau diriaethol ohonynt. Rhaid i

[3] Rhaid i asesiad 1a ar gyfer pob crefft fod yn union yr un fath ag asesiad 1 yn y cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2).

ddysgwyr orfod cynllunio'r dasg/tasgau, cyflawni'r elfennau ymarferol a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt wrth gyflawni'r dasg/tasgau ac ansawdd y deilliannau. Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n fewnol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol; rhaid i'r dysgwr, y cyflogwr/cyflogwyr a'r darparwr dysgu gytuno ar y dasg/tasgau cyn cychwyn; rhaid i'r dasg/tasgau fynnu bod dysgwyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a meini prawf perfformiad sy'n ofynnol yn y set o safonau cenedlaethol a gydnabyddir yn eang, gan gynnwys unrhyw arbenigeddau crefft perthnasol; rhaid iddo gyfrif am 60% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

Asesiad 3 Trafodaeth broffesiynol
Diben
Rhaid i'r asesiad asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1-4. Rhaid i'r drafodaeth broffesiynol ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fyfyrio ar gwblhau eu tasg/tasgau ymarferol, heb gymorth nac ysgogiad. Rhaid iddi hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r meysydd dysgu mewn gwahanol gyd-destunau.
Gofynion
Rhaid asesu'r asesiad yn allanol; rhaid iddo fod o hyd penodol a fydd yn cael ei amlinellu gan y corff dyfarnu; rhaid iddo gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

20. Bydd galw cymharol i'r asesiadau ar gyfer pob dysgwr, waeth beth yw'r llwybr crefft a ddilynir.

21. Rhaid defnyddio cymysgedd o fathau o gwestiynau ar draws yr asesiadau.

22. Rhaid i gynlluniau marcio asesu nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â chynnwys y pwnc.

23. Rhaid bod cyfleoedd asesu ar gael ar sail galw amdanynt.

24. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau mewn perthynas ag ail-sefyll ac ail-gyflwyno.

GRh - Gofyniad rhesymeg: *wrth gyflwyno'r fanyleb, bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu esbonio'r ffyrdd y mae'r cynllun asesu yn cydbwyso ystyriaethau hydrinedd, ymgysylltu, dibynadwyedd a dilysrwydd. Rhaid i'r fanyleb sicrhau:*

- *mae'r trefniadau asesu, yn gyffredinol, yn hylaw ar gyfer canolfannau a dysgwyr;*
- *mae'r trefniadau asesu, yn gyffredinol, yn ddigon deniadol i ddysgwyr ac yn hyrwyddo diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc;*
- *bydd y trefniadau asesu yn sicrhau dibynadwyedd deilliannau asesu, ar lefel canolfan a chenedlaethol a thros amser;*

- *mae'r trefniadau asesu yn fath ddilys o asesiad ar gyfer y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu.*

Deilliannau

25. Rhaid i'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fodloni sgôr trothwy ym mhob asesiad i gael eu hardystio.

26. Rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus gael eu graddio a'u hardystio gyda naill ai Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

27. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftio ar gyfer pob uned/cydran, a dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig.

Gofynion rhesymeg

28. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

29. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    29.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;
    29.2. y dull o ymdrin â chynnwys dros amser ar gyfer asesiadau mewnol ac allanol (gan gynnwys manyleb y prawf asesu allanol);

29.3. y dull o ymdrin â strwythur asesu, gan gynnwys nifer, pwysoliad, dyraniad marciau a hyd unedau/cydrannau asesu;
29.4. dyluniad a chymhwysiad cynlluniau marcio a/neu feini prawf;
29.5. sut y bydd yr asesiad allanol yn cael ei ddarparu ar sail galw;
29.6. y dull o ddatblygu ac adnewyddu asesiadau dros amser;
29.7. sut mae'r amodau a osodwyd ar gyfer yr asesiadau yn arwain at ganlyniadau dibynadwy ac yn briodol ar gyfer pob lleoliad;
29.8. y prosesau a ddefnyddir i osod a chynnal safonau yn yr asesiadau;
29.9. y broses ddylunio a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y trothwyon arfaethedig ar gyfer pob un o'r asesiadau a'r ffiniau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol;
29.10. y dull o ail-sefyll ac ailgyflwyno (ar lefel cydran a chymhwyster), gan gynnwys sut y bydd amseriad cyhoeddi canlyniadau a chyhoeddi briffiau prosiect blynyddol yn effeithio ar ail-sefyll ac ailgyflwyno;
29.11. ei strategaeth ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau mewnol;
29.12. ei ddull o ddylunio, monitro a chynnal profion ar y sgrin;
29.13. dull o agregu, graddio a gwahaniaethu; a
29.14. ei ddull o ddefnyddio'r safonau galwedigaethol perthnasol.
29.15. ei ddull o bennu pa gymhwyster sy'n cynnwys y llwybr codi fframiau pren yn seiliedig ar gyfrifo'r oriau dysgu dan arweiniad gofynnol.

Gofynion gweithredol

30. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer yr aseswyr, swyddogion sicrhau ansawdd mewnol a swyddogion sicrhau ansawdd allanol.

31. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:
31.1. cofrestriadau
31.2. sicrhau ansawdd
31.3. prosesau asesu.

Atodiad A – Safonau Galwedigaethol

Cynnwys

Llwybr Crefft	**Rhif y Dudalen**
Leinio sych	12
Gosod llechi a theils ar do	13
Gweithrediadau sifil – gwaith daear	15
Gosod Brics	17
Gwaith saer pensaernïol	18
Gwaith coed ar safle	19
Codi fframiau pren	20
Paentio ac addurno	21
Plastro soled	22
Teilio waliau a lloriau	23
Gweithrediadau peiriannau	24

Leinio sych

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR129	Gosod systemau leinio sych
COSVR130	Gosod leininau plastrfwrdd

Dewisol

COSVR618	Gorffen gwaith leinio sych (waliau a nenfydau)

Gosod llechi a theils ar do

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR272	Gosod haen waelodol, estyll a chydrannau toi
COSVR273	Gosod lapiadau plwm hindreulio wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar doeau
COSVR274	Gosod teils to lap-sengl i fesur amrywiadwy
COSVR275	Gosod gorchuddion to â theils plaen
COSVR276	Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd i fanylion safonol y to

Dewisol

COSVR47	Cynnal toi llechi a theils
COSVR67	Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndirol a chynhyrchu gorffeniadau
COSVR250	Gosod a datgysylltu platfformau mynediad/gweithio
COSVR252	Defnyddio systemau diogelu rhag cwympo a ddarperir
COSVR501	Amnewid gorchuddion to treftadaeth
COSVR502	Atgyweirio a chynnal gorchuddion to treftadaeth
COSVR277	Gosod llechi to artiffisial lap-dwbl
COSVR280	Tynnu ac adfer gorchuddion to
COSVR281	Gosod cydrannau ar gyfer adeiladu to cynnes ac oer
COSVR282	Gosod teils to lap-sengl i fesur sefydlog
COSVR283	Gosod gorchuddion to ag estyll to
COSVR298	Gosod casglwyr solar ar doeau
COSVR360	Gosod, cynnal a symud offer amddiffyn a diogelwch ardal waith
COSVR501	Amnewid gorchuddion to treftadaeth

COSVR502	Atgyweirio a chynnal gorchuddion to treftadaeth
COSVR524	Clirio safle a'i drosglwyddo ar ôl cwblhau gwaith

Gweithrediadau sifil - gwaith daear

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR400	Defnyddio offer, unedau pŵer neu gyfarpar, peiriannau neu offer cyffredin
COSVR401	Sefydlu dulliau rheoli ar gyfer gwaith dimensiynol eilaidd
COSVR370	Gosod, cynnal a dileu cynhaliaeth cloddio dros dro

Dewisol

COSVR225	Gosod a chywasgu concrit
COSVR45	Gosod a gorffen concrit anarbenigol
COSVR639	Gosod systemau draenio
COSVR376	Gweithredu a rheoli gweithrediadau peiriannau neu offer ffyrdd
COSVR368	Gosod cyrbau a sianeli wedi'u ffurfio ymlaen llaw
COSVR363	Paratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu
COSVR361	Torri, drilio a siapio deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu
COSVR760	Rheoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad offer neu beiriannau
COSVR250	Gosod a datgysylltu platfformau mynediad/gweithio
COSVR391	Gweithio gyda pheiriannau i dderbyn a chludo llwythi
COSVR402	Slingio llwythi a signalu i symud llwythi crog
COSVR36	Paratoi, cymysgu a dosbarthu concrit a morter
COSVR782	Lleoli a chloddio i ddatgelu gwasanaethau cyfleustodau wedi'u claddu
COSVR172	Adfer cyflwr y ddaear
COSVR362	Gosod, dodi neu gymhwyso deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu
COSVR763	Gosod, adeiladu, cynnal, datgysylltu a symud gwaith dros dro

COSVR370	Gosod, cynnal a dileu cynhaliaeth cloddio dros dro
COSVR372	Nodi a marcio lleoliad cyfarpar ac is-strwythurau cyfleustodau
COSVR394	Nodi a marcio lleoliad cyfarpar ac is-strwythurau cyfleustodau

Gosod Brics

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR40	Gosod strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau
COSVR41	Gosod strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau allan
COSVR42	Gosod cladin wedi'i wneud o frics a blociau
COSVR49	Gosod brics a blociau i ffurfio nodweddion pensaernïol ac addurniadol
COSVR50	Atgyweirio a chynnal a chadw strwythurau wedi'u gwneud o frics

Dewisol

COSVR44	Gosod strwythurau wedi'u gwneud o flociau uniad tenau
COSVR225	Gosod a chywasgu concrit
COSVR639	Gosod systemau draenio
COSVR810	Gosod a ffurfio elfennau cynnal bricwaith a blocwaith arbenigol

Gwaith saer pensaernïol

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR14	Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion arferol allan
COSVR15	Marcio cynhyrchion arferol allan o wybodaeth gosod allan
COSVR16	Gweithgynhyrchu cynhyrchion arferol
COSVR628	Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy
COSVR632	Gweithgynhyrchu cynhyrchion pwrpasol
COSVR633	Gosod a defnyddio peiriannau sefydlog
COSVR634	Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Dewisol

COSVR28	Llunio gwybodaeth gosod allan gyda chymorth cyfrifiadur
COSVR472	Cynhyrchu pren a chynhyrchion pren drwy ddefnyddio peiriannau rheolaeth rifiadol gyfrifiadurol/rheolaeth rifiadol

Gwaith coed ar safle

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR09	Gosod cydrannau'r gosodiad cyntaf
COSVR10	Gosod cydrannau'r ail osodiad
COSVR11	Gosod cydrannau adeiladwaith sgerbwd
COSVR12	Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol
COSVR628	Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy
COSVR631	Gosod cydrannau adeiladwaith sgerbwd to

Dewisol

COSVR25	Cynnal a chadw cydrannau anstrwythurol a strwythurol
COSVR358	Gosod cydosodiadau drysau pren a setiau drysau sy'n gwrthsefyll tân

Codi fframiau pren

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR218	Cydgysylltu a chadarnhau gofynion dimensiynol y gwaith
COSVR289	Gosod waliau a lloriau pren
COSVR290	Gosod strwythurau to pren
COSVR402	Slingio llwythi a signalu i symud llwythi crog
COSVR631	Gosod cydrannau adeiladwaith sgerbwd to

Paentio ac addurno

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR250	Gosod a datgysylltu platfformau mynediad/gweithio
COSVR332	Paratoi arwynebau i'w paentio a/neu eu haddurno
COSVR333	Cotio arwynebau drwy ddefnyddio brwshys a rholeri
COSVR336	Gosod gorchuddion waliau (papurau safonol a phapurau sylfaen)

Dewisol

COSVR337	Gosod gorchuddion waliau nad ydynt o led safonol
COSVR339	Cotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu di-aer
COSVR340	Cotio arwynebau drwy ddefnyddio cyfarpar chwistrellu aer
COSVR342	Creu a defnyddio stensiliau cymhleth
COSVR343	Gosod gorchuddion waliau ar arwynebau cymhleth
COSVR346	Gosod gorchuddion waliau (papurau arbenigol)
COSVR347	Creu gorffeniadau gweadog drwy ddefnyddio crib
COSVR348	Gosod ffoil metel ar arwynebau
COSVR646	Gosod cilfwadau a mowldinau addurniadol
COSVR647	Defnyddio deunyddiau cotio i greu gorffeniadau gweadog
COSVR648	Creu effeithiau lliw cymysg
COSVR649	Creu dyluniadau stensil drwy ddefnyddio platiau stensil a dorrwyd ymlaen llaw
COSVR650	Creu effeithiau graen pren syth
COSVR651	Creu gorffeniadau o ansawdd sy'n atgynhyrchu graen pren
COSVR652	Creu effeithiau marmori
COSVR653	Creu gorffeniadau o ansawdd sy'n atgynhyrchu marmor

Plastro

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR65	Rhoi plastr terfynol ar arwynebau wedi'u paratoi
COSVR66	Cynhyrchu gorffeniadau plastro caled mewnol
COSVR67	Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndirol a chynhyrchu gorffeniadau
COSVR76	Gosod plastr soled ar arwynebau mewnol cymhleth
COSVR77	Cynhyrchu gorffeniadau rendr allanol cymhleth

Dewisol

COSVR68	Gosod systemau leinin sych sy'n clymu'n uniongyrchol
COSVR69	Gosod sgridau tywod a sment
COSVR70	Gosod plastr a rendrad taflunio, a chynnal a chadw cyfarpar
COSVR71	Gosod plastrfwrdd wedi'i osod yn fecanyddol
COSVR75	Cynhyrchu castiau sment
COSVR78	Cynhyrchu gwaith granolithig
COSVR79	Cynhyrchu gorffeniadau plastr arbenigol
COSVR80	Rhedeg mowldiadau ar y safle
COSVR314	Gosod lloriau sgrîd

Teilio waliau a lloriau

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR69	Gosod sgridau tywod a sment
COSVR141	Paratoi cefndiroedd er mwyn eu teilsio
COSVR142	Teilsio arwynebau waliau a lloriau
COSVR143	Creu arwynebau ceramig, mosaig a charreg cymhleth

Dewisol

COSVR149	Gosod systemau gwresogi dan y teils a'u gorchuddio â theils
COSVR555	Cadw, adfer neu gynnal a chadw teils wal a llawr

Gweithrediadau peiriannau

Gorfodol

COSVR641	Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, trin neu storio adnoddau
COSVR386	Paratoi offer neu beiriannau cyn perfformiad gweithredol *Categorïau perthnasol: peiriant turio 180 º; peiriant turio 360 º; triniwr telesgopig; tryc dadlwytho blaen-dipio; rholer eistedd arno.*
COSVR387	Gweithredu offer neu beiriannau i godi a throsglwyddo llwythi *Yn berthnasol i gategori triniwr telesgopig.*
COSVR388	Gweithredu offer neu beiriannau i echdynnu *Perthnasol i'r categori peiriant turio 180º.*
COSVR389	Gweithredu offer neu beiriannau turio *Categorïau perthnasol: peiriant turio 360 º; rholer eistedd arno.*
COSVR391	Gweithredu offer neu beiriannau i dderbyn a chludo llwythi *Yn berthnasol i'r categori tryc dadlwytho blaen-dipio.*

Dewisol

COSVR659	Gweithredu offer neu beiriannau ar gyfer gweithgareddau anweithredol *Categorïau perthnasol: peiriant turio 360˚; triniwr telesgopig; peiriant turio 180˚; tryc dadlwytho blaen-dipio; rholer eistedd arno.*

Gweler hefyd droednodiadau sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn a'r categorïau gofynnol ar dudalen 5.